

Mae Coleg Cambria yn ymwybodol fod dyletswydd arno, yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol, i gydnabod a lleihau ei brif effeithiau amgylcheddol. Yn ogystal â chydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, bydd y Coleg yn gweithio'n weithredol i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd yn ogystal â hyrwyddo datblygu'n gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang trwy'r gwasanaethau addysg a hyfforddiant y mae'n eu darparu.

Mae Coleg Cambria wedi ymrwmo i greu dyfodol cynaliadwy a bydd yn mabwysiadu dull gweithredol tuag at ddiogelwch a chadwraeth yr amgylchedd. Bydd y Coleg yn gweithredu mesurau i hybu cynaliadwyedd a cheisio gwella ar y mesurau hynny lle y bo'n bosibl. Mae'r Coleg yn cydnabod ei oblygiadau o ran cyfrifoldeb cymdeithasol a chorfforaethol a bydd yn cydweithio â staff, dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned leol i gyflawni'r dyletswyddau hynny.

Mae'n bolisi gennym i:-

1. Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol cyfredol a mabwysiadu polisiau a gweithdrefnau a fydd yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.
2. Sicrhau datblygiad a chynhaliaeth systemau a gweithdrefnau rheoli effeithiol sy'n atal llygredd a cheisio gwelliannau parhaus gyda'r nod o leihau effaith carbon y Coleg ar yr amgylchedd a materion amgylcheddol eraill perthnasol yn ymwneud â hyn.
3. Gweithredu mesurau sy'n cofnodi gwybodaeth a data yn gywir gyda'r nod o fonitro perfformiad cynaliadwyedd y Coleg. Llunio systemau i ddadansoddi'r wybodaeth a'r data i nodi'r meysydd i'w gwella.
4. Mynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol allweddol a nodwyd drwy:-
 - Optimeiddio'r defnydd o adnoddau naturiol yn effeith a lleihau eu defnydd i'r isafswm; gweithredu mesurau i sicrhau defnyddio ynni a dŵr yn effeithlon; ystyried ynni o ffynonellau adnewyddadwy lle bynnag y bo hynny'n bosibl; aildefnyddio dŵr a chynaeafu; cyflwyno technolegau o'r fath lle bo hynny'n ddichonadwy.
 - Hyrwyddo lleihau gwastraff ac aildefnyddio deunyddiau wrth ddarparu systemau ailgylchu a bod yn weithredol wrth annog eu defnyddio.
 - Hyrwyddo defnyddio systemau electronig i leihau argraffu a lleihau'r defnydd o bapur yn weithredol.
5. Ystyried defnyddio safonau BREEAM mewn adeiladau newydd a phrosiectau adnewyddu. Gweithredu'r safonau hynny lle bo'n ddichonadwy.
6. Cefnogi polisi caffael sy'n ymroddedig i wella dyfodol cynaliadwy a'i hysbysebu i annog eraill i fabwysiadu dulliau tebyg.
7. Sicrhau bod staff wedi eu hyfforddi a bod dysgwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau amgylcheddol a darparu cymorth i eraill gyda'r nod o gael hyfforddiant amgylcheddol i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r angen am ddyfodol cynaliadwy. Cyfuno'r cysyniad o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang ym meysydd Cwricwlwm a Busnes y Coleg a gweithio tuag at ddatblygu cymdeithas lwyddiannus gynaliadwy.
8. Cefnogi rhaglenni cymunedol a mentrau amgylcheddol sy'n galluogi arddangos a hyrwyddo arferion gorau.
9. Monitro cynnydd trwy gyfarfodydd rheolaidd y tîm rheoli i nodi meysydd i'w gwella, gosod targedau mesuradwy ac adrodd yn agored/cyhoeddus yn flynyddol ar y cynnydd a wneir mewn cyflawni'r targedau hynny.

Er mwyn gweithredu'r polisi hwn, mae Coleg Cambria wedi dyrannu cyfrifoldebau ac adnoddau fel y bo'n briodol. Bydd yn cysylltu â staff, undebau, awdurdodau a phartion eraill â diddordeb ynghylch materion yn ymwneud â chynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Ystyria'r Gorfforaeth i'r nodau hyn fod yn hollbwysig.